# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22 Medi 2021 |
| **Teitl:** | Eglurhad o weithdrefn Cyngor Sir Ceredigion i ymdrin ag achosion o dipio anghyfreithlon |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu am y gweithdrefnau a'r dulliau gweithio i ymdrin â phroblemau tipio anghyfreithlon yng Ngheredigion. |
| **Er:** | Craffu |
| **Portffolio ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Lloyd – Diogelu'r Cyhoedd |

Cefndir

Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd ddifrifol sy'n fygythiad uniongyrchol i'r amgylchedd, i anifeiliaid, i gymunedau lleol, ac i dirwedd Ceredigion, sir sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a thwristiaeth.

Caiff tipio anghyfreithlon ei ddiffinio yn adran 33 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel dyddodi gwastraff ar dir heb ganiatâd a roddwyd drwy drwydded amgylcheddol.

Mae'n hawdd drysu rhwng tipio anghyfreithlon a gwastraff a gyflwynwyd yn anghywir i'w gasglu (ar y diwrnod anghywir, yn y cynhwysydd anghywir, neu yn y man anghywir), a bydd pobl yn drysu rhyngddynt yn aml. Weithiau, bydd pobl yn drysu rhyngddo a thaflu sbwriel hefyd. Caiff taflu sbwriel ei ddiffinio fel taflu llai na bag bin sbwriel.

Mae'r brif ddeddfwriaeth sy'n rheoli tipio anghyfreithlon wedi'i chynnwys yn adrannau 33, 34 a 59 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae adran 33 yn peri iddi fod yn drosedd gadael gwastraff yn anghyfreithlon, peri i hynny ddigwydd gan wybod hynny, neu ganiatáu i hynny ddigwydd gan wybod hynny. Mae adran 34 yn gosod dyletswydd gofal ar bawb sy'n ymwneud â gwastraff a reolir, gan beri iddi fod yn ofynnol iddynt sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n briodol, ei adfer neu'i waredu'n ddiogel, sicrhau nad yw'n peri niwed i iechyd y cyhoedd nac yn llygru'r amgylchedd, a sicrhau nad yw ond yn cael ei drosglwyddo i rywun a awdurdodwyd i'w dderbyn.

Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i unrhyw un sy'n cynhyrchu, yn mewnforio, yn cludo, yn cadw, yn trin neu'n gwaredu gwastraff a reolir, neu sydd, fel brocer, yn rheoli gwastraff o'r fath. Gellir torri'r ddyletswydd hon pan ganfyddir yn y pen draw fod y gwastraff wedi'i adael yn anghyfreithlon. Mae adran 59 yn darparu pwerau i beri iddi fod yn ofynnol symud gwastraff a adawyd yn anghyfreithlon.

Gorfodi

Mae'n amlwg bod angen gorfodi tipio anghyfreithlon yn effeithiol. Y prif amcan yw atal unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol ac ar amwynder preswyl, fel niwed i fywyd gwyllt a llygredd yn yr amgylchedd daearol a dyfrol, yn ogystal ag atal gwastraff a allai ddarparu noddfa i blâu fel llygod mawr, peri niwsans i'r cyhoedd, ac andwyo hyfrydwch ardal neu ba mor ddymunol yw hi. Os caiff deunyddiau penodol, fel asbestos ac anifeiliaid marw, eu gadael yn anghyfreithlon, gall hefyd beri risg i iechyd y cyhoedd. Er enghraifft, byddai'n cymryd mil o flynyddoedd i sigarét ddadelfennu yn yr amgylchedd.

Gall tipio anghyfreithlon anuniongyrchol a throseddau gwastraff eraill, fel taflu sbwriel, effeithio'n andwyol ar dwristiaeth ac, mewn ardal lle y caiff gwastraff ei adael yn anghyfreithlon yn rheolaidd, gall effeithio ar werth tai. Gall tipio anghyfreithlon gan unigolion sy'n gweithredu busnesau anghyfreithlon, drwy gasglu gwastraff pobl eraill gan honni eu bod yn ei waredu'n briodol, hefyd danseilio busnesau cyfreithlon sy'n cludo ac yn gwaredu gwastraff pobl eraill yn gyfreithlon.

Mae hefyd yn hanfodol mynd ati'n effeithiol i orfodi tipio anghyfreithlon i atgyfnerthu barn y cyhoedd fod yr awdurdod gorfodi'n ymrwymo i gynnal yr amgylchedd. Rhoi cyhoeddusrwydd i achosion lle y cafodd y rheini sydd wedi gadael gwastraff yn anghyfreithlon eu herlyn yn llwyddiannus yw'r brif ffordd o atal digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. O orfodi tipio anghyfreithlon yn effeithiol, gall weithredu fel mesur ataliol drwy beri i'r rheini a allai adael gwastraff yn anghyfreithlon sylweddoli bod perygl clir y gallent gael eu dal a'u cosbi pe baent yn gadael gwastraff yn anghyfreithlon yng Ngheredigion.

Mae dewis gorfodi arall ar gael i awdurdodau lleol Cymru ers 2017, sef pŵer i roi cosb benodedig o £200 (£120 os y'i telir cyn pen 10 diwrnod) i rywun sy'n cyflawni trosedd tipio anghyfreithlon. Cafodd y ddarpariaeth ychwanegol hon ei chroesawu'n fawr, ac mae'n ddull effeithiol o ymdrin â throseddau lefel isel neu'r rheini sy'n troseddu am y tro cyntaf, heb fod angen gwario'n helaeth ar y gwaith gorfodi.

Yn achos rhai troseddau lefel isel iawn, rhoddir llythyr rhybudd ffurfiol. Mae hyn fwyaf tebygol o ddigwydd mewn achosion lle y caiff gwastraff ei adael heb fawr ddim difrod amgylcheddol na throseddoldeb, os o gwbl.

Penderfynir pa ddull gorfodi i'w ddewis i raddau helaeth iawn yn unol â'r ystyriaethau cyffredinol a bennir ym mholisi gorfodi'r Cyngor. Bydd ffactorau o'r fath yn cynnwys a yw'r troseddwr wedi cyfaddef i'r drosedd ar y cyfle cynharaf, ac a oes gan y troseddwr hanes o wynebu camau gorfodi ai peidio. Fodd bynnag, mae angen ystyried ffactorau sy'n berthnasol i'r tipio, fel maint y gwastraff a'i effaith debygol ar yr amgylchedd.

Gweithdrefn tipio anghyfreithlon

1. Mae'r awdurdod yn defnyddio strategaethau rhagweithiol ac adweithiol i fynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon. Ymhlith y mesurau rhagweithiol mae monitro lleoliadau lle y bydd tipio anghyfreithlon yn digwydd yn fynych, a chadw gwyliadwriaeth arnynt. Ymhlith y mesurau adweithiol mae ymchwilio i ddigwyddiadau lle y cafodd gwastraff ei adael yn anghyfreithlon i bennu a ellir

casglu tystiolaeth i ddwyn achos o dan adrannau 33 a/neu 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 neu adran 2 o Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978.

2. Pan fydd yr awdurdod yn bwriadu cadw gwyliadwriaeth ar leoliadau lle y caiff gwastraff ei adael yn fynych, ac yn enwedig pan fydd yn defnyddio camerâu o bell, bydd angen iddo fodloni gofynion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Mae hyn yn golygu bod rhaid gosod arwyddion i roi gwybod y gall gwaith monitro fod yn digwydd.

3. Pan fydd yn ymchwilio i gŵynion am dipio anghyfreithlon, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a yw'r gwastraff yn perthyn i'r categorïau ar gyfer gweithredu gan yr awdurdod lleol o dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru. Gall y memorandwm cyd-ddealltwriaeth bennu hyd a lled y tipio anghyfreithlon, y mathau o dipio anghyfreithlon a lleoliadau'r tipio anghyfreithlon y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ysgwyddo cyfrifoldeb dros ymchwilio iddynt, fel achosion lle y cafodd llawer iawn o wastraff neu wastraff peryglus ei adael yn anghyfreithlon, ac achosion lle y cafodd gwastraff ei adael yn anghyfreithlon mewn cyrsiau dŵr neu lle y mae perygl o lygru cyrsiau dŵr.

4. Pan fydd cwyn sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon yn dod i law, dylai'r swyddog ymchwilio gael gafael ar gymaint o wybodaeth â phosibl (gweler y weithdrefn 'Ymchwilio i Gŵynion a Cheisiadau am Wasanaeth') hefyd. Dylai'r wybodaeth gynnwys yr hyn a ganlyn:

- Lleoliad y gwastraff
- Natur y gwastraff a'r math o wastraff
- Y dyddiad y daethpwyd o hyd i'r gwastraff
- A oes tyst i'r tipio anghyfreithlon ac, os felly, a yw'r tyst yn barod i wneud datganiad
- A oes unrhyw fanylion yn wybyddus o ran rhif cofrestru'r cerbyd a ddefnyddiwyd i adael y gwastraff yn anghyfreithlon
- Disgrifiad o'r unigolyn a adawodd y gwastraff yn anghyfreithlon os oes tyst i'r digwyddiad
- Unrhyw fanylion sy'n wybyddus o ran perchennog neu feddiannwr y tir ac a yw'n debygol o fod yn gwybod am y tipio anghyfreithlon neu'n caniatáu iddo ddigwydd
- A oes unrhyw fanylion amlwg ar y gwastraff neu yn ei blith sy'n dangos ei ffynhonnell, e.e. enw cwmni, anfoneb, neu gyfeiriad.

5. Dylai'r swyddog ymchwilio ymweld â'r safle lle y cafodd y gwastraff ei adael a chadarnhau cynifer â phosibl o'r manylion uchod. Bydd y swyddog yn gwneud y pethau a ganlyn hefyd:

- Tynnu lluniau o'r gwastraff yn y fan a'r lle
- Archwilio'r gwastraff lle y bo modd i chwilio am dystiolaeth o'r sawl sy'n gyfrifol neu o ffynhonnell y gwastraff, gan ystyried ei iechyd a'i ddiogelwch ei hun, h.y. peidio â didoli'r gwastraff heb fesurau diogelu digonol
- Rhoi unrhyw dystiolaeth y bydd yn cael hyd iddi, e.e. llythyron ac ati, mewn bag arddangosion, a'i selio

- Ymweld â'r achwynydd i gasglu unrhyw dystiolaeth sydd ganddo/ganddi ac i gael datganiad lle y bo'n berthnasol

Y dewisiadau gorfodi sydd ar gael i'r awdurdod lleol

Gweithredu o dan adrannau 33 a 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

- Rhaid i ddeiliaid tai sicrhau o hyd eu bod yn gwaredu eu gwastraff mewn ffordd nad yw'n llygru'r amgylchedd (adran 33(1)(c))
- Mae gwarediadau bach, diniwed wedi'u hepgor
- Os defnyddir cerbyd modur i adael gwastraff yn anghyfreithlon, tybir bod y sawl sy'n rheoli'r cerbyd hwnnw wedi peri i'r gwastraff gael ei adael gan wybod ei fod yn gwneud hynny
- Ceir amddiffyniadau o ran cymryd pob rhagofal rhesymol, arfer pob diwydrwydd dyladwy a chymryd camau brys i atal perygl i'r cyhoedd.

6. Bydd yr ymchwiliad yn ceisio pennu ffynhonnell y gwastraff, a'r camau i'w brosesu a'i gludo, i bennu a gafodd gofynion dyletswydd gofal adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 eu torri hefyd.

7. Cyflwynodd Rheoliadau Gwastraff (Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref) (Cymru a Lloegr) 2005 ddyletswydd newydd ar ddeiliaid tai o 21 Tachwedd 2005. O dan y ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i ddeiliaid tai roi mesurau rhesymol ar waith i sicrhau bod gwastraff cartref a gynhyrchir yn eu heiddo yn cael ei drosglwyddo i unigolyn awdurdodedig. Dylai mesurau rhesymol gynnwys cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru i gadarnhau bod y sawl y bu iddynt roi eu gwastraff iddo yn gludydd gwastraff cofrestredig. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i ddeiliad tŷ gwblhau na chadw disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff (y 'nodyn trosglwyddo').

8. Yn unol â Rheoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2019, caiff awdurdod lleol roi hysbysiad cosb benodedig, gan roi cyfle i'r unigolyn ryddhau ei hun rhag unrhyw rwymedigaeth i'w erlyn am y drosedd o fethu â chydymffurfio ag adran 34(2A) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n rhoi dyletswydd ar ddeiliaid tai i drosglwyddo gwastraff cartref i unigolion awdurdodedig penodol yn unig. Swm y gosb benodedig yw £300, neu £150 am dalu'n gynnar cyn pen deg diwrnod.

9. Y cosbau am droseddau o dan adrannau 33(1)(a) a (b) yw dirwy ddiderfyn neu ddedfryd o hyd at ddeuddeg mis o garchar o gael euogfarn ddiannod neu ddirwy ddiderfyn a hyd at bum mlynedd o garchar o gael euogfarn ar dditiad. Y cosbau am euogfarn o dan adran 33(1)(c) i unigolyn (ac eithrio menter neu sefydliad) yw dirwy ddiderfyn o gael euogfarn ddiannod neu euogfarn ar dditiad.

10. Bu i Reoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017 ddiwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 drwy gyflwyno pŵer gorfodi newydd ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon, sef pŵer i roi hysbysiadau cosb benodedig am droseddau o dan adran 33(1)(a).

11. Y cosbau am dorri’r gofynion dyletswydd gofal yw dirwy ddiderfyn o gael euogfarn ddiannod mewn llys ynadon neu euogfarn yn Llys y Goron (adran 34(6) o Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990).

Hyd a lled tipio anghyfreithlon yng Ngheredigion

Mae’r ffigurau isod yn ymwneud â’r holl ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt i dîm Diogelu’r Cyhoedd yr awdurdod, yn gyhoeddus ac yn breifat.

- cofnodwyd 375 o ddigwyddiadau yn 2020-2021
- cofnodwyd 308 o ddigwyddiadau yn 2019-2020
- cofnodwyd 324 o ddigwyddiadau yn 2018-2019
- cofnodwyd 243 o ddigwyddiadau yn 2017-2018

Cofnodwyd 106 o ddigwyddiadau hyd yma rhwng 1 Ebrill 2021 – 18 Awst 2021.

Gwaith partneriaeth

Mae’r awdurdod yn cymryd rhan ym menter Taclo Tipio Cymru sy’n dod â’r awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghyd i gynhyrchu adnoddau, hyfforddiant, a llwyfan i rannu arferion gorau o ran gorfodi. Mae’r grŵp wedi mynd ati i ddatblygu’r arfer o ddefnyddio apiau symudol i helpu i adnabod lleoliadau lle y caiff gwastraff ei adael yn anghyfreithlon yn fynych, yn ogystal â rhoi sylw i faterion trawsffiniol. Ar hyn o bryd, mae’r swyddogion yn ystyried dichonoldeb defnyddio ap FlyMapper ar gyfer cwynion yng Ngheredigion i’w cynorthwyo â’u hymchwiliadau ac i gyfrannu at y data ehangach a ddefnyddir i fapio tipio anghyfreithlon ledled Cymru.

Mae Gwasanaeth Diogelu’r Cyhoedd hefyd yn cydweithio’n agos â swyddogion lleol Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu ac i flaenoriaethu achosion, ac i benderfynu pwy fydd yn arwain y gwaith o ymchwilio iddynt, yn unol â’r matrics tipio anghyfreithlon.

Yn fewnol, mae’n hollbwysig cyd-drafod â chydweithwyr y gwasanaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i sicrhau eu bod yn symud eitemau yn eu maes cyfrifoldeb nhw. Yn hanesyddol, bu gan y swyddogion berthynas waith dda i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfnewid yn brydlon er mwyn mynd i’r afael â phroblemau. Mae trefniadau ar y gweill i sefydlu grŵp swyddogion gweithredol i ymchwilio i welliannau pellach, a’u hwyluso, o ran sut yr ydym yn cydweithio ar draws gwasanaethau i leihau effeithiau negyddol tipio anghyfreithlon ar ein cymunedau.

Cadwch Gymru’n Daclus

Yn sgil newidiadau diweddar i’r ffordd y mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gweithredu, mae’r corff wedi symud tuag at newid ymddygiad a chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae wedi croesawu slogan ‘Caru Ceredigion’ a’i fabwysiadu ar ffurf ‘Caru Cymru’. Yn ddiweddar, rydym wedi cyflogi swyddog a fydd yn cydweithio â Chadwch Gymru'n Daclus i hyrwyddo’r ymgyrch hon yn lleol, ochr yn ochr â grwpiau lleol a’n gweledigaeth wreiddiol ni.

Caru Ceredigion

Cydnabyddir bod newid ymddygiad yn hollbwysig i atal tipio anghyfreithlon. Caiff negeseuon pwysig o ran ymddygiadau cadarnhaol eu hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol a deunydd cyhoeddusrwydd i annog ymddygiadau priodol. Mae ethos Caru Ceredigion yn gynhwysol ac yn annog holl drigolion y sir i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu hamgylchedd lleol er mwyn i 'wneud y peth iawn' ddod yn reddfol.

Awdurdodau lleol cyfagos

Pan fydd angen, bydd y swyddogion yn cyd-drafod â swyddogion awdurdodau lleol cyfagos pan fydd materion trawsffiniol yn dod i'r amlwg, fel pan fydd troseddwyr sydd wedi'u lleoli yn ardal y naill awdurdod lleol wedi gadael gwastraff yn anghyfreithlon yn ardal y llall. Mewn achosion o'r fath, penderfynir pwy fydd yn arwain ymchwiliad fesul achos.

Gorfodi adweithiol o'i gymharu â gorfodi rhagweithiol sy'n seiliedig ar wybodaeth:

Ymateb i adroddiadau am achosion o dipio anghyfreithlon ac ymchwilio iddynt ar ôl iddynt ddigwydd yw gorfodi adweithiol.

Mae gorfodi rhagweithiol sy'n seiliedig ar wybodaeth yn ymwneud â chadw gwyliadwriaeth mewn lleoliadau lle y caiff gwastraff ei adael yn anghyfreithlon yn fynych, yn unol â'r technegau cadw gwyliadwriaeth a ganiateir. Defnyddir datblygiadau o ran technoleg teledu cylch cyfyng i osod camerâu am gyfnodau ar safleoedd o'r fath.

Llwyddiant diweddar yn sgil gorfodi adweithiol

| Blwyddyn | Hysbysiadau cosb benodedig | Rhybuddion syml |
|---|---|---|
| 2018/19 | 2 | 0 |
| 2019/20 | 2 | 0 |
| 2020/21 | 0 | 0 |

Llwyddiant diweddar yn sgil gorfodi rhagweithiol

| Blwyddyn | Hysbysiadau cosb benodedig | Rhybuddion syml |
|---|---|---|
| 2018/19 | 5 | 0 |
| 2019/20 | 6 | 0 |
| 2020/21 | 2 | 1 |

Ceir rhwystrau rhag gorfodi tipio anghyfreithlon. Gan ei bod yn drosedd droseddol, rhaid i'r baich prawf fod y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Fodd bynnag, yn sgil gwelliannau o ran argaeledd a chost technoleg teledu cylch cyfyng, mae'r gallu i ddal troseddwyr yn gwella.

**Crynodeb**

Mae tipio anghyfreithlon:

- Yn difetha cymunedau
- Yn andwyo'r amgylchedd a bywyd gwyllt

- Yn effeithio'n andwyol ar amwynder ardal a chanfyddiad y cyhoedd ohoni.

Gall hefyd effeithio ar iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Mae tîm Diogelu'r Cyhoedd yn cydweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol a chanddynt ddiddordeb mewn tipio anghyfreithlon a gwastraff. Bu i nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt gynyddu yn ystod 2020-2021, a gall fod modd priodoli hyn i'r pandemig a'i effaith ar weithrediad arferol gwasanaethau amwynder dinesig.

| | | |
|---|---|---|
| **A gyflawnwyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, rhowch reswm** | | Darperir yr adroddiad i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu am y ddeddfwriaeth ym maes tipio anghyfreithlon. |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Hirdymor:** | Diogelu'r cyhoedd yw un o ddyletswyddau statudol yr awdurdod, ac mae'n cyfrannu at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| | **Cydweithio:** | Mae gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yn cydweithio'n helaeth ag asiantaethau sy'n bartneriaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, awdurdodau lleol eraill, Heddlu Dyfed Powys, a Llywodraeth Cymru. |
| | **Cynnwys:** | Mae gweithgarwch gorfodi gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yn dechrau drwy ymgysylltu, annog, a hybu cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth. |
| | **Atal:** | Rhoddir pwyslais ar atal, gan fod prosesau ar waith i sicrhau bod nifer o wiriadau, rhagofalon a chynlluniau addysg yn cael cyhoeddusrwydd yn lleol ac yn genedlaethol. |
| | **Integreiddio:** | Mae gweithgarwch gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yn gydnaws ag amcanion partneriaid iechyd ac yn cyfrannu at nifer o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Argymhelliad:** | | Bod y Pwyllgor Craffu'n ystyried y cynnwys ac yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | | Cydymffurfio â gofynion statudol, sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei gorfodi'n briodol ac yn effeithiol, a gwella iechyd y cyhoedd. |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg a Chraffu:** | Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ystyried cynnwys a goblygiadau'r adroddiad hwn. |
| **Fframwaith polisi:** | Strategaeth Gorfforaethol 2017–2022 |
| **Blaenoriaethau corfforaethol:** | • Buddsoddi yn nyfodol y bobl<br>• Hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol |
| **Goblygiadau o ran cyllid a chaffael:** | Dim |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | Dim – goblygiadau sy'n bodoli eisoes |
| **Goblygiadau staffio:** | Dim |
| **Goblygiadau o ran eiddo/asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | Niwed i enw da – mae tipio anghyfreithlon yn fater sy'n ennyn teimladau cryf. Mae iddo hefyd risgiau o ran iechyd yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. |
| **Pwerau statudol:** | Fe'u hamlinellir yn yr adroddiad. |

Papurau cefndir:

| | |
|---|---|
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: | Alun Williams (Polisi a Pherfformiad) |
| Swyddog adrodd: | Heddwyn Evans (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd) |
| Dyddiad: | 24 Awst 2021 |